

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Tŷ Llidiard

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 8 – 10

Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Dŷ Llidiard ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg rhwng 8 ac 11 Tachwedd 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un wedi'i enwebu fel yr adolygydd Deddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Mae Tŷ Llidiard yn cynnwys dwy ward, sef Ward Enfys a Ward Seren. Yn bennaf, darperir gofal i gleifion ar y ward fwyaf, sef Ward Enfys, a defnyddir y ward leiaf, Ward Seren, i ddarparu cyfnodau byr o ofal aciwt i gleifion a allai fod ei angen. Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn yn gyfan gwbl ar Ward Enfys.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfedd â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad.

Roedd dulliau diogel a therapiwtig o isgyfeirio yn cael eu defnyddio i helpu i amddiffyn diogelwch a llesiant y cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal yn yr holl feysydd. Yn arbennig, mae angen gwelliannau i sicrhau bod cynlluniau gofal yn bodloni canllawiau arferion gorau ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dangosodd y staff lefel dda o ddealltwriaeth o ran y cleifion roeddent yn gofalu amdanynt
- Roedd y cleifion yn derbyn asesiadau gofal iechyd corfforol a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd
- Roedd gan y cleifion fynediad at ystod dda o therapiau a gweithgareddau
- Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau
- Gwnaeth y staff ddisgrifio strategaethau priodol ar gyfer rheoli ymddygiad heriol i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion
- Roedd y dogfennau statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion sy'n cael eu cadw yn cael eu cadw'n gywir

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gwneud mwy o wybodaeth ar gael i'r cleifion, megis sut i wneud cwyn
- Mae'n rhaid i gynlluniau gofal ganolbwyntio ar gryfderau'r cleifion i gynorthwyo eu hadferiad a'u hannibyniaeth, a rhoi tystiolaeth o anghenion nas diwallwyd

- Mae'n rhaid i ddyddiadau cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol aros yn gyson i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal digonol ac amserol
- Dylai Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth, ffurflenni absenoldeb Adran 17 a chynlluniau gofal gael eu monitro yn unol â chanllawiau arferion gorau
- Mae'n rhaid gwirio offer meddygol, megis clorian bwysu, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at eu diben ac yn rhoi darlleniadau cywir
- Mae'n rhaid i'r staff allu cyrchu fersiwn fwyaf diweddar polisïau

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn gyfrifol am gomisiynu darpariaeth cleifion mewnol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) y GIG ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Comisiynir Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gan WHSSC i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar draws De Cymru yn Nhŷ Llidiard, a leolir ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan Dŷ Llidiard 15 o welyau rhyw cymysg. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr uned yn llawn, ond roedd chwe chlaf ar absenoldeb cymeradwy.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys uwch-nyrs, rheolwr ward, a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd seiciatreg, seicoleg a therapi galwedigaethol. Cefnogir yr uned gan strwythurau clinigol a gweinyddol y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion gydag urddas a pharch.

Roedd gan y cleifion fynediad at amrediad eang o weithgareddau grŵp ac unigol i helpu i gefnogi a chynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i gynnal eu haddysg, naill ai trwy'r ysgol ar y safle neu drwy fynychu eu hysgol arferol.

Roedd angen gwelliannau i wneud mwy o wybodaeth ar gael yn hawdd i'r cleifion trwy gydol yr uned.

Cadw'n iach

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion a chynlluniau gofal pedwar claf yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau corfforol cynhwysfawr yn cael eu cynnal ar y cleifion wrth iddynt gael eu derbyn a thrwy gydol eu harhosiad.

Gwelsom bosteri yn cael eu harddangos trwy gydol y ward yn hyrwyddo ffordd iach o fyw a phwysleisio dulliau iechyd meddwl da, megis strategaethau ymdopi a sut i gynyddu hunan-barch.

Lleolir ysgol ar ail lawr yr adeilad sy'n rhoi mewnbwn addysgol i'r cleifion yn ystod eu hamser yn yr uned. Mae trafndiaeth ddyddiol hefyd ar gael i alluogi rhai o'r cleifion i barhau gyda'u haddysg yn eu hysgol arferol. Mae'r cleifion yn gallu cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau therapiwtig a gweithgareddau hamdden y tu allan i oriau ysgol. Gwelsom fod amserlen weithgareddau yn cael ei harddangos yn y lolfa a oedd yn cynnwys gweithgareddau megis cwisiau a bingo. Roedd ystafell therapi celf a neuadd chwaraeon gydag offer campfa ar gael i'r cleifion eu defnyddio o dan oruchwyliaeth. Roedd ystafell gemau hefyd ar gael, a oedd yn cynnwys bwrdd pŵl, bwrdd pêl-droed a phiano.

Roedd gan yr uned ardaloedd dynodedig yn yr ardd a oedd yn darparu manau awyr agored dymunol. Mae'r cleifion yn cael y cyfle i fynd am dro bob dydd ar ôl yr ysgol, ac maent yn cael eu hannog i wneud hynny.

Gofal ag urddas

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn trin cleifion yn briodol gydag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn arddangos lefel dda o ddealltwriaeth o ran y cleifion yr oeddent yn gofalu amdanynt. Gwnaethom siarad â rhiant claf yn yr uned a roddodd adborth cadarnhaol ar y gofal a ddarperir i'w blentyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parchu preifatrwydd y cleifion trwy guro'r drws cyn mynd i mewn i'w hystafelloedd gwely.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ac ystafell ymolchi ei hun a oedd yn cynnwys toiled a chawod ac yn rhoi preifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd toiledau rhyw unigol cymunol hefyd ar gael trwy gydol y ward. Gwnaethom nodi bod y toiled cymunol i'r merched wedi'i baentio'n binc a bod y toiled cymunol i'r bechgyn wedi'i baentio'n las. Efallai bydd y bwrdd iechyd yn ystyried paentio'r toiledau cymunol mewn lliwiau niwtral er mwyn bod yn fwy cynhwysol i unrhyw gleifion anneuaid a allai gael eu derbyn.

Roedd y cleifion yn gallu rhoi eitemau personol yn eu hystafelloedd, megis lluniau, posteri a'u heiddo, os yw'n cael ei ystyried yn briodol yn dilyn asesiadau risg unigol. Roedd pob ystafell wely yn cynnig man storio digonol. Roedd yr ardaloedd byw yn edrych yn lân, ac roedd dodrefn yr ystafelloedd gwely yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn ôl pob golwg, ond roeddem yn teimlo y gellid ail-baentio rhai o'r ystafelloedd.

Roedd gan bob drws ystafell wely banel arsylwi fel y gallai staff gynnal arsylwadau gweladwy heb lawer o effaith ar y cleifion. Roedd y cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely o'r tu fewn, ond gallai staff ddatgloi'r cloeon pe bai angen. Dywedwyd wrthym fod yr ystafelloedd gwely yn cael eu cloi yn ystod y dydd i annog y cleifion i fynd i'r ysgol, rhyngweithio â'i gilydd, a defnyddio'r cyfleusterau eraill yn yr uned.

Gwelsom fod unrhyw eitemau y gallai eu hystyried yn risg i'r cleifion yn cael eu storio mewn ystafell storio ar wahân y gallai'r cleifion ofyn i gael mynediad ati. Gwnaethom nodi bod yr ystafell storio yn llawn ac yn ymddangos i fod yn ddi-drefn, a allai arwain at eitemau personol yn cael eu colli.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu'r ystafell storio i sicrhau ei bod yn daclus ac yn cadw eiddo personol pob claf yn ddiogel.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd y cleifion yn cael eu haddurno a'u paentio'n rheolaidd.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedwyd wrthym fod y cleifion, a'u haelodau teuluol, yn derbyn amrywiaeth o wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl yn ystod eu harhosiad yn Nhŷ Llidiard wrth iddynt gael eu derbyn. Gwelsom wybodaeth am wasanaethau eirioli ac amseroedd ymweld yn cael ei harddangos yn y lolfar ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar y wardiau i'r cleifion am rôl AGIC a sut y gallai cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.¹

Roedd bwrdd cipolwg ar statws claf² yn y brif swyddfa a oedd yn arddangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf sy'n derbyn gofal ar y ward. Roedd y bwrdd wedi'i gynllunio fel y gellid gorchuddio gwybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y bwrdd yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y tîm staff yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am rôl AGIC, eu hawl i gyfarfod ag ymwelwyr wedi'u penodi gan AGIC yn breifat, a'r ffaith eu bod yn gallu gwneud cwyn i AGIC.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy ein harsylwadau o ryngweithiadau rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Gwelsom y staff yn cymryd eu hamser i siarad ac egluro pethau i'r cleifion gan ddefnyddio geiriau ac iaith sy'n addas i'r claf unigol. Teimlodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

¹ Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau cleifion: <https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/deddf-iechyd-meddwl-1983-cod-ymarfer-deddf-iechyd-meddwl-1983-cymru--diwygiedig-2016.pdf>

² Dyma fwrdd sy'n rhoi cyfeiriad cyflym i staff o ran gwybodaeth hanfodol am gleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

Cynhelir cyfarfod cymunedol dyddiol ar y ward rhwng y staff a'r cleifion. Mae'r cyfarfod yn galluogi'r staff i hysbysu'r cleifion o'r gweithgareddau sydd ar ddod a gwybodaeth berthnasol arall, fel tribiwnlysoedd ac apwyntiadau meddygol. Dywedodd un claf wrthym nad oedd yn ymwybodol o ba amser y byddai eiriolwr yn bresennol yn yr uned cyn iddo gyrraedd y safle. Efallai y bydd y bwrdd iechyd yn dymuno sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hysbysu ymlaen llaw o unrhyw ymweliadau gan eiriolwyr sydd wedi'u cynllunio yn ystod y cyfarfodydd cymunedol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Nid oedd y cynlluniau gofal a adolygwyd gennym yn canolbwyntio ar gryfderau'r cleifion, neu eu hadferiad na'u hannibyniaeth. Yn ogystal, gwnaethom nodi na chofnodir anghenion y cleifion nas diwallwyd. Mae'n bwysig bod anghenion nas diwallwyd yn cael eu dogfennu er mwyn iddynt allu cael eu hadolygu gan y tîm amlddisgyblaethol i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Roedd tystiolaeth o gyfranogiad y tîm amlddisgyblaethol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gofal a'u hadolygu. Yn ystod yr arolygiad, cafodd cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol wythnosol ei symud o ddydd Mercher i ddydd Mawrth ar fyr rybudd. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai aelodau perthnasol o'r tîm amlddisgyblaethol a gweithwyr proffesiynol eraill yn bresennol, ac nad oedd cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu mynychu. Er y cawsom wybod bod hyn yn ddigwyddiad untro, dylai dyddiadau cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol aros yn gyson pan fo hynny'n bosibl i sicrhau cyfranogiad llawn gan weithwyr proffesiynol eraill y tîm amlddisgyblaethol a'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal cleifion yn gwneud y canlynol:

- canolbwyntio ar gryfderau'r cleifion i gynorthwyo eu hadferiad a'u hannibyniaeth
- rhoi tystiolaeth o anghenion nas diwallwyd

Hawliau pobl

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion cyfreithiol tri chlaf a oedd wedi cael eu cadw yn yr uned o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Canfuom fod y dogfennau perthnasol wedi'u cwblhau'n gywir pan oedd y cleifion wedi cael eu

cadw yn yr uned. Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau ar y dogfennau cyfreithiol yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Mae nifer yr ymwelwyr y caniateir iddynt weld y cleifion yn yr uned wedi amrywio yn ystod y pandemig COVID-19 yn unol â'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Caniateir uchafswm o ddau ymwelydd ar hyn o bryd i ymweld â'r cleifion, ac mae ystafelloedd ar wahân ar gael i alluogi i'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn breifat. Yn ogystal, mae fflat i ymwelwyr ar gael ar gyfer arosiadau dros nos i aelodau teuluol a allai fyw ymhell oddi wrth Dŷ Llidiard.

Roedd ffôn ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â theluoedd a ffrindiau. Roedd gan y cleifion fynediad cyfyngedig at eu ffonau symudol a gallent ond eu defnyddio ar amseroedd dynodedig, megis y tu allan i oriau ysgol. Gwelsom boster wedi'i arddangos yn y lolfa sy'n hysbysu'r cleifion am y rheolau ar ddefnyddio ffonau symudol wrth yn yr uned.

Gwrando a dysgu o adborth

Gallai'r cleifion ddefnyddio'r cyfarfodydd cymunedol dyddiol fel ffordd o ddarparu adborth ar y gofal eu bod yn ei dderbyn yn yr uned ac er mwyn trafod unrhyw bryderon. Gallai'r cleifion a'r gofalwyr hefyd roi adborth gan ddefnyddio offeryn arolwg ar-lein. Roedd canlyniadau'r arolwg yn cael eu hadolygu a'u trafod gan yr uwch-staff yn yr uned i ystyried gwelliannau i'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym y byddai rheolwr y ward yn ceisio datrys unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn anffurfiol yn y lle cyntaf, drwy siarad â'r cleifion am y problemau a oedd ganddynt.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni welsom wybodaeth yn cael ei harddangos o gwmpas y ward i hysbysu'r cleifion a'u teuluoedd am sut y gallent wneud cwyn ffurfiol, er enghraifft trwy broses Gweithio i Wella GIG Cymru.³

³ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon am wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru. <http://www.wales.nhs.uk/ingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am sut i wneud cynwys drwy broses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd prosesau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau posibl mewn ffordd addas.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Roedd strategaethau priodol ar waith i reoli ymddygiad heriol i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd angen gwelliannau i gynlluniau gofal y cleifion i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau arferion gorau.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Mae adeilad Tŷ Llidiard ar wahân i brif Ysbyty Tywysoges Cymru, ac mae ganddo ei faes parcio ei hun yn uniongyrchol y tu allan i'r adeilad. Mae gofyn i'r ymwelwyr fynd i mewn i'r uned trwy dderbynfa a system intercom, sy'n helpu i atal unigolion heb awdurdod rhag mynd i mewn i'r adeilad. Roedd mynediad trwy gydol yr uned yn gyfyngedig i gynnal diogelwch y cleifion, y staff a'r ymwelwyr, a oedd yn cynnwys yr allanfa a reolir o bob ward.

Mae'r cyfleusterau wedi'u rhannu dros ddau lawr, gyda'r ddwy ward ar y llawr daear, a swyddfeydd a'r ysgol ar y llawr cyntaf. Roedd lifft ar gael i helpu pobl sydd ag anawsterau symudedd.

Roedd amgylchedd yr uned a'r wardiau yn lân ac yn gyfforddus i'r cleifion, a'r dodrefn a'r ffitiadau yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod rhestr wirio amgylcheddol ddyddiol yn cael ei chwblhau i wirio am broblemau ar draws yr adeilad. Mae archwiliadau amgylcheddol blynyddol hefyd wedi cael eu cynnal ac maent yn cael eu hadolygu gan y bwrdd iechyd i fonitro cydymffurfedd.

Gwnaethom dderbyn copi o bolisi iechyd a diogelwch y bwrdd iechyd, sy'n amlinellu trefniadau i greu amgylchedd diogel ym mhob lleoliad ar draws y bwrdd

iechyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y polisi wedi mynd heibio i'w ddyddiad adolygu nesaf o fis Chwefror 2021.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi iechyd a diogelwch.

Atal a rheoli heintiau

Trwy gydol ein hymweliad, gwelsom fod yr amgylchedd yn lân a thaclus, yn ôl pob golwg. Dywedwyd wrthym fod yr offer a rennir a'r dyfeisiau meddygol yr gellir eu haildefnyddio yn cael eu dadheintio ar ôl pob defnydd. Gwelsom fod offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol.

Dywedwyd y staff wrthym am y gwaith a gynhaliwyd ar ddechrau'r pandemig i helpu i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19 trwy'r uned. Newidiwyd y carpedi o ystafelloedd gwely y cleifion a chafodd ffitiadau eu disodli â dodrefn y gellir eu glanhau â chlwt. Gwnaeth amllder y glanhau gynyddu, a gwelsom fod amserlenni glanhau wedi'u llofnodi pan oedd tasgau wedi'u cwblhau.

Ar hyn o bryd, profir pob claf am COVID-19 bob pump diwrnod, neu wrth iddynt ddychwelyd o absenoldeb. Mae unrhyw gleifion yr amheuir eu bod yn bositif, neu y cadarnhawyd eu bod yn bositif, yn cael eu hynysu yn eu hystafelloedd gwely. Gofynnir i ymwelwyr gwblhau rhestr wirio COVID-19 at ddibenion sgrinio a gwisgo cyfarpar diogelu personol cyn mynd i mewn i'r uned. Gwelsom y staff yn gwisgo masgiau wyneb ar y wardiau, a gwelsom fod maint digonol o gyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod polisiâu perthnasol ar waith a oedd yn manylu ar y mesurau rheoli heintiau amrywiol sydd ar waith yn yr uned. Cwblhawyd archwiliadau rheolaidd i wirio glendid y wardiau a chydymffurfedd â gofynion cyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod y tîm atal a rheoli heintiau canolog yn y bwrdd iechyd hefyd yn ymweld â'r uned er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n gweithio yn yr uned, a gwelsom fod cydymffurfedd â hyfforddiant atal a rheoli heintiau ymhlith y staff nyrsio'n eithaf isel ar 61 y cant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol.

Maeth a hydradu

Gwnaeth y cynlluniau gofal y gwnaethom eu hadolygu ddangos bod anghenion deietegol y cleifion wedi eu hasesu gan ddefnyddio offeryn priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae mesuriadau monitro parhaus, megis cymeriant hylif a bwyd, a magu/colli pwysau, hefyd wedi'u cofnodi.

Roedd y cleifion yn gallu dewis eu prydau o fwyd am y diwrnod bob bore. Dywedwyd wrthym fod y cleifion â deietau arbennig yn cael eu hystyried, ac y gellid darparu ar gyfer unrhyw geisiadau penodol gan y cleifion. Gallai'r cleifion gael mynediad at y gegin ar y ward, a oedd â chyfleusterau megis microdon, peiriant gwneud brechdanau crasu a pheiriant Slush Puppie. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion i wneud byrbrydau a diodydd trwy gydol y dydd gyda chymorth gan y staff.

Roedd rhai cleifion yn derbyn y maetholion a'r hylifau yr oedd eu hangen arnynt trwy diwb nasogastrig.⁴ Gwelsom gopi o bolisi'r bwrdd iechyd, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn rheoli bwydo trwy diwb nasogastrig yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd y polisi wedi mynd heibio ei ddyddiad adolygu nesaf o fis Chwefror 2021. Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion, gwnaethom hefyd nodi nad oedd y cynlluniau gofal ar gyfer y cleifion y mae angen tiwbiau nasogastrig arnynt yn dogfennu'r dull unigol a fyddai'n orau ar gyfer bwydo llwyddiannus, megis disgrifio pryd, sut a ble mae'r cleifion yn dymuno cael eu bwydo.

Gwelsom fod yr ystafell fwyta yn daclus a bod ganddi dodrefn a chyfleusterau addas. Roedd gan bob claf sedd benodol gyda'i enw arno i roi sefydlogrwydd a threfn arferol ar gyfer eu hamseroedd bwyd.

⁴ Tiwb hyblyg yw tiwb nasogastrig y gellir ei roi trwy'r trwyn i'r stumog. Mae'n cael ei ddefnyddio yn gyffredin i ddosbarthu bwyd, meddyginiaethau a hylifau, neu ar gyfer draenio cynnwys gastrig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi Mewnosodiad Nasogastrig a Chadarnhad Safle ar gyfer Oedolion, Plant a Babanod, neu sicrhau bod gan y staff yn Nhŷ Llidiard fynediad at y fersiwn ddiweddaraf os yw wedi'i adolygu ers yr arolygiad.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynlluniau gofal ar gyfer y cleifion y mae angen tiwbiau nasogastrig arnynt yn amlinellu dymuniadau unigol y claf i helpu i gyflawni bwydo llwyddiannus yn y ffordd orau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu trefniadau clinig Tŷ Llidiard a chanfod bod y gwaith o reoli meddyginiaethau'n ddiogel ar y cyfan, ond bod angen gwneud rhai gwelliannau.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom feddyginaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau, ac roedd yr oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu gwneud o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gwneuthurwr. Roedd polisiau perthnasol, megis rheoli meddyginiaethau a thawelu'n gyflym, yn gyfredol ac ar gael i'r staff.

Gwnaethom adolygu bedair siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth⁵ a gwnaethom nodi'n gadarnhaol nad oedd unrhyw bresgripsiynau tawelu'n gyflym neu heb eu trefnu⁶ wedi'u defnyddio'n ddiweddar, a bod meintiau isel o feddyginiaeth yn cael eu defnyddio'n gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r problemau canlynol yn ystod ein hadolygiad:

⁵ Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yw adroddiad sy'n gweithredu fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddwyd i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

⁶ Mae presgripsiwn heb ei drefnu yn golygu nad yw'r gwaith o roi'r meddyginiaeth wedi'i amserlennu. Yn hytrach, cymerir y presgripsiwn yn ôl y galw.

- Nid oedd mesuriadau taldra a phwysau a gwybodaeth am alergeddau'r cleifion bob tro yn cael eu cwblhau.
- Ni chafodd dyddiad y rheol tri mis,⁷ i bwysleisio pryd na ellir darparu triniaeth bellach heb awdurdodiad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn, ei roi ar ddau achlysur.
- Nid oedd ffurflenni asesu i bennu a oedd gan y cleifion y galluedd i gydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth y claf.
- Gwnaethom nodi bod gan rai cleifion yn Nhŷ Llidiard yr un enwau cyntaf, ond nid oedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys llun o bob claf. Gwnaeth hyn gynyddu'r risg bosibl o ddrysu meddyginiaeth un claf â meddyginiaeth un arall.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith yn yr uned ar gyfer storio a defnyddio'n ddiogel gyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n debygol o gael eu camdefnyddio. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal bob wythnos gyda'r llofnodion staff nyrsio priodol yn cadarnhau bod y gwiriadau wedi'u cyflawni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod prosesau ar waith i helpu i sicrhau bod y staff yn yr uned yn diogelu'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

⁷ Pan fydd claf yn cael ei gadw o dan adran y Ddeddf Iechyd Meddwl, gellid rhoi triniaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer anhwylder meddyliol am gyfnod o dri mis heb gydsyniad y claf; ar ôl tri mis, mae angen i driniaeth o'r fath gael ei hawdurdodi gan feddyg a benodwyd i roi ail farn.

Dywedwyd wrthym fod cyfathrebu agored a rheolaidd wedi bod rhwng y staff yn Nhŷ Llidiard a Hybiau Diogelu Amlasianaethol Cwm Taf Morgannwg,⁸ sydd wedi darparu canllawiau a chynghor pan fydd angen.

Gwelsom fod 82 y cant o'r staff nyrsio a 100 y cant o'r staff therapïau wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelu plant gorfodol. Fodd bynnag, dim ond 66 y cant o'r staff meddygol sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl staff hyfforddiant gorfodol cyfredol mewn diogelu plant.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd o gyfarpar dadebru yn cael eu cynnal i sicrhau bod y cyfarpar yn bresennol ac o fewn ei ddyddiad, a gwelsom fod y staff wedi nodi pryd y cynhaliwyd y gwiriadau hyn.

Yn ystod ein gwiriadau o'r offer meddygol sydd ar gael yn yr uned, gwnaethom nodi bod y glorian bwysu wedi'i gwirio a'i graddnodi ddiwethaf⁹ ym mis Ionawr 2020. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn sicr a oedd y glorian yn rhoi mesuriadau manwl gywir.

Roedd yn amlwg trwy drafodaethau â'r staff eu bob yn ymwybodol o leoliad torwyr clymiadau os bydd argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl offer meddygol trwy gydol yr uned yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol fel eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn darparu darlenniadau cywir.

⁸ Hybiau Diogelu Amlasiantaethol yw'r pwynt cyswllt unigol i'r holl weithwyr proffesiynol adrodd ar bryderon diogelu ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg.

⁹ Os ydych yn graddnodi offeryn neu declyn, rydych yn ei farcio neu'n ei addasu fel bod modd i chi ei ddefnyddio i fesur rhywbeth yn gywir.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuom fod ymatebion diogel a therapiwtig ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol a hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion. Roedd gan y cleifion gynlluniau rheoli ward a oedd yn amlinellu ymyriadau therapiwtig unigol a phwy oedd yn gyfrifol am eu cyflawni.

Defnyddiwyd egwyddorion cymorth ymddygiad cadarnhaol fel prif ddull o isgyfeirio. Pan fo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach pe bai eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd yr uwch staff fod ataliaeth gorfforol ddiogel o gleifion ond yn cael ei hystyried fel dewis olaf. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol ar gyfer eu diogelwch eu hunain y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Gwelsom bolisiâu cyfredol ar waith i ddarparu'r fframwaith ar gyfer rheoli ymyriadau o'r fath.

Gwelsom fod unrhyw ddefnydd o ataliaeth yn cael ei gofnodi mewn cofnod digwyddiadau electronig, a thrafodwyd digwyddiadau o'r fath yn ystod cyfarfodydd llywodraethu i nodi unrhyw ddysgu.

Gwelsom fod asesiadau risg cyfredol ar gyfer pwyntiau clymu yn cael eu cynnal. Nododd y rhain bwyntiau clymu posibl ledled yr adeilad, gan gynnwys y wardiau, a pha gamau a gymerwyd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio a'u cynnal mewn swyddfeydd dan glo. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau cleifion yn drefnus ac felly roedd yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol wedi'i chadw yn y ffeiliau yn hawdd. Roedd hyn hefyd yn ganfyddiad yn ein harolygiad blaenorol ar safle Tŷ Llidiard ym mis Mai 2019. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am gyfyngiadau cynnal cofnodion papur yn briodol, a dylai'r bwrdd iechyd ystyried symud i system cofnodion cleifion electronig cyn gynted â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion a chynlluniau gofal cleifion wedi'i nodi yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal yn adroddiad hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu cofnodion sy'n cynnwys y dogfennau cadw statudol ar gyfer tri chlaf yn yr uned. Roedd copïau o'r gwaith papur cyfreithiol yn cael eu storio'n ddiogel yn y swyddfa nyrsio, a chedwir y dogfennau gwreiddiol oddi ar y safle yn swyddfa gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym wedi'u trefnu'n dda, yn hawdd eu llywio, ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Roedd y dogfennau statudol yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithiol. Roedd yn amlwg fod cyfnodau cadw wedi'u gweithredu o fewn gofynion y Ddeddf a Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn brofiadol, yn drefnus, ac yn wybodus am ei rôl. Disgrifiodd systemau archwilio addas a chadarn mewn grym ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol. Roedd y gweinyddwr yn aelod o Fforwm Gweinyddwyr Deddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, a oedd yn ei helpu i gadw'n gyfredol gydag unrhyw newidiadau i'r deddfwriaeth ac i drafod themâu, materion a phrofiadau cyffredin.

Yn ystod ein trafodaethau â staff, cawsom wybod bod statws cyfreithiol y cleifion yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, a bod cyfarfodydd gweithredol bob chwarter yn cael eu cynnal rhwng yr uwch-reolwyr ac asiantaethau amlddisgyblaethol eraill i drafod unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw. Cafodd ei gadarnhau hefyd fod y staff wedi parhau i ymgymryd â hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl o bell trwy gydol y pandemig.

Gwelsom fod absenoldeb Adran 17¹⁰ yn destun asesiad risg addas i bob claf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y ffurflenni absenoldeb yn gwneud y canlynol:

¹⁰ Mae absenoldeb Adran 17 yn caniatáu i'r claf sydd wedi'i gadw adael Tŷ Llidiard.

- Disgrifio canlyniad neu ddiben bwriadedig yr absenoldeb, neu adolygu sut brofiad oedd ar ôl i'r claf dychwelyd
- Cynnwys adran i'r claf ei llofnodi i nodi ei fod wedi'i gynnwys ac yn cydsynio i'r absenoldeb
- Cynnwys llun neu ddisgrifiad o'r claf i alluogi dychweliad diogel pe bai'r claf yn methu â dychwelyd o'i absenoldeb

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn, a mynd i'r afael â'r materion y gwnaethom eu nodi yn yr adroddiad hwn.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o bedwar claf yn yr uned. Gwelsom fod asesiadau Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN)¹¹ wedi'u cwblhau yn darparu crynodebau da o ffactorau personol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â risgiau unigol y cleifion. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod yr holl arsylwadau a gynhaliwyd ar y cleifion wedi'u cwblhau a'u cofnodi yn briodol o fewn eu cofnodion gofal. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod y canlynol am y cynlluniau gofal y gwnaethom eu hadolygu:

- Yn ôl pob golwg, roeddent wedi cael eu datblygu ar sail templed cyffredinol a safonol; nid oedd barn a chyfraniad y claf tuag at ei gynlluniau gofal ei hun yn amlwg, ac felly nid oedd llais y claf yn weladwy
- Mewn un cynllun gofal, nid oedd sôn am enw'r claf trwyddo draw, ac, mewn un arall, cafodd enw claf gwahanol ei gynnwys yn anghywir yn un adran

¹¹ Mae Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru yn dechneg sy'n seiliedig ar fformiwleiddiad ar gyfer asesu a rheoli risg ddifrifol i gleifion sydd wedi'i mabwysiadu ar draws y rhan fwyaf o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ledled Cymru.

- Nid oeddent wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith sy'n addas i blant sy'n adlewyrchu llais y claf
- Nid oeddent yn ystyried wyth maes bywyd unigolyn fel y'u nodwyd ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Nid oeddent wedi cael eu llofnodi gan y claf i roi tystiolaeth ei fod wedi cytuno i'r cynllun ac wedi cael copi
- Nid oeddent yn cynnwys tystiolaeth i ddangos a oedd y cleifion wedi eu hasesu ar gyfer galluedd am ystod o anghenion yn ystod eu harhosiad yn yr uned – er enghraifft, defnyddio eu ffôn symudol neu ymdrin â'u harian

Ar ben hynny, nid oedd y cynlluniau gofal yn dangos tystiolaeth bod offerynnau asesiad craidd cleifion mewnol wedi eu defnyddio i asesu'r cleifion yn gynhwysfawr wrth iddynt gael eu derbyn. Mewn rhai achlysuron, roedd yn ymddangos bod asesiadau a gynhaliwyd eisoes ar gyfer cleifion pan oeddent yn y gymuned yn parhau i gael eu dilyn ar ôl iddynt gael eu derbyn, heb unrhyw dystiolaeth bod y tîm amlddisgyblaethol wedi adolygu a chytuno ar y rhain. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â'r seiciatrydd ymgynghorol ynghylch a oedd yr asesiad a oedd ar waith ar gyfer un claf dal yn briodol gan nad oedd tystiolaeth ei fod wedi'i adolygu'n llawn pan gafodd ei dderbyn, neu ers hynny. Cafodd newidiadau i ganlyniad yr asesiad yn dilyn hynny mewn perthynas â'r claf hwn, camau y gallent fod wedi cael eu cymryd yn gynharach pe bai asesiadau cynhwysfawr wedi cael eu cynnal pan gafodd y claf ei dderbyn i'r uned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â chynlluniau gofal yn cael eu datrys wrth fynd ymlaen i fodloni'r canllawiau arferion gorau ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth, fel y'u nodwyd ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr uned, ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu safonau uchel o ofal i'r cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith i ddarparu ffocws ar gynnal a gwella safonau.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau blynyddol.

Gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn ymroddedig i weithredu rhaglen newid i drawsnewid y gwasanaeth mewn ymateb i'r pryderon blaenorol a godwyd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Tŷ Llidiard a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cael eu craffu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn fewnol ac yn allanol, gan randdeiliaid, megis yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Mae hyn wedi arwain at bryderon yn cael eu codi am Dŷ Llidiard, a'r gwasanaeth CAMHS ehangach, mewn perthynas â diwylliant, arweinyddiaeth a pherfformiad.

Ar gefn y pwysau hyn, roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr uned, ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd, wedi ymgysylltu'n agored â ni yn ystod yr arolygiad. Trafododd yr uwch-reolwyr y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Roedd hyn yn cynnwys y penodiad diweddar o Bennaeth Nyrsio newydd yn Nhŷ Llidiard, a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwelliannau sydd eu hangen. Gwelsom adroddiadau wythnosol ar y prif bwyntiau, a oedd yn dangos y camau gweithredu allweddol a oedd wedi eu

gweithredu, ac unrhyw gamau gweithredu ar y gweill sydd i'w cymryd, er mwyn gwneud cynnydd tuag at wella'r gwasanaeth.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff trwy gydol yr arolygiad, roedd yn amlwg bod y materion yn yr uned dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn perthynas â diwylliant, arweinyddiaeth a pherfformiad yn cael effaith sylweddol ar forâl a llesiant y staff. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod penodiad newydd y Pennaeth Nyrsio eisoes wedi dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar forâl staff. Roedd newidiadau hefyd wedi cael eu gwneud yn ddiweddar i uwch rolau yn y strwythur sefydliadol, a ddylai helpu i roi llinellau rheolaeth ac atebolrwydd clirach, a rhoi lefel uwch o ymreolaeth i staff er mwyn adennill rheolaeth o'u cyfrifoldebau parhaol.

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith yn yr uned i ddarparu trosolwg o faterion clinigol a gweithredol. Roedd gweithgareddau archwilio a systemau a phrosesau monitro ar waith, a gwelsom adroddiadau a oedd yn dangos bod y staff yn monitro ac yn dadansoddi digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn yr uned i nodi unrhyw themâu. Dangosodd agendâu ar gyfer cyfarfodydd yr uwch-reolwyr, cyfarfodydd llywodraethu a chyfarfodydd nyrsio ystod eang o eitemau sefydlog, a oedd yn helpu i sicrhau bod ffocws ar gynnal safonau'n barhaus.

Fel y trafodwyd trwy gydol yr adroddiad hwn, gwelsom fod nifer o'r polisïau wedi mynd heibio i'w dyddiad adolygu. Ni chawsom ein sicrhau bod y staff yn cael neu'n derbyn y canllawiau diweddaraf i gyfarwyddo eu hymarfer proffesiynol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, a gweithredu archwiliad o'r polisïau i sicrhau y gall staff y ward gyrchu'r fersiwn ddiweddaraf a chyfeirio ati.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Yn ystod ein hamser yn yr uned, gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos i fod yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr uned yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Roedd lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i ddiwallu anghenion asesedig y cleifion yn yr uned ar adeg ein harolygiad. Cawsom wybod bod rotâu staff yn cael

eu cynhyrchu ar hyn o bryd gan yr uwch-reolwyr, ond y bydd yn dod cyfrifoldeb rheolwr y ward yn yr uned. Bydd hyn yn rhoi mwy o reolaeth i reolwr y ward ac eglurder gwell ar ei gyfrifoldebau.

Cadarnhaodd yr uwch staff fod gwaith recriwtio parhaus i lenwi ystod o swyddi nyrsio, therapi a meddygol gwag. Dywedwyd wrthym y byddai adolygiad o'r sefydliad staffio hefyd yn cael ei gynnal cyn bo hir i sefydlu'r gweithlu ymhellach. Roedd hi'n glir o drafodaethau â'r staff bod pryderon ynghylch y gostyngiad diweddar mewn gallu'r tîm therapiâu, yn enwedig mewn swyddi allweddol megis y therapydd teulu. Cafodd hyn ei gymhlethu gan eu diffyg mewnbwn ar y safle yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi cael effaith ar y staff nyrsio trwy gynyddu eu llwyth gwaith, ac wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu perthnasau rhwng y cleifion a'u teuluoedd, sy'n allweddol i alluogi rhyddhad cyflymach. Yn gadarnhaol, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y bydd gallu'r tîm therapiâu a'r gwaith o'i sefydlu yn ffurfio rhan o'r adolygiad o'r sefydliad staffio.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau blynyddol ar gyfer staff yn yr uned a gweld bod y cyfraddau cwblhau'n uchel yn gyffredinol a bod cynlluniau ar waith i gwblhau unrhyw beth sydd heb ei wneud. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau a manylion cydymffurfedd staff unigol i'r uwch-reolwyr.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Fel arfer, ni roddir rhybudd cyn ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi ni i weld gwasanaethau yn y modd y maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG gan AGIC yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi ciplun o safonau gofal yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Llidiard

Ward: Enfys

Dyddiad yr arolygiad: 8–10 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd ynghylch sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Llidiard

Ward: Enfys

Dyddiad yr arolygiad: 8–10 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu'r ystafell storio i sicrhau ei bod yn daclus ac yn cadw eiddo personol pob claf yn ddiogel.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r staff nyrsio wedi tacluso a rhoi trefn ar yr eiddo personol yn yr ystafell storio. Mae'r holl staff wedi cael eu briffio i sicrhau bod holl eiddo'r cleifion yn cael ei drefnu a'i storio'n ddiogel. Mae'r ystafell storio yn cael ei gwirio bob dydd fel rhan o'r archwiliad amgylcheddol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd y cleifion yn cael eu haddurno a'u paentio'n rheolaidd.</p>	<p>4.1 Gofal ag urddas</p>	<p>Mae rhaglen dreigl wedi'i sefydlu gyda'r adran ystadau i sicrhau bod ystafelloedd gwely y cleifion yn cael eu haddurno'n rheolaidd.</p> <p>Bydd yr uwch-nyrs a rheolwr y ward yn nodi pryderon amgylcheddol sydd angen eu huwchgyfeirio ar unwaith.</p> <p>Mae'r archwiliad amgylcheddol dyddiol yn cynnwys adolygiad o holl ystafelloedd gwely'r cleifion. Os oes unrhyw feysydd sydd angen cael sylw cyn y rhaglen addurno, byddai'r rheolwr ardal yn cael ei hysbysu gan y staff i godi cais gyda'r adran ystadau i fynd i'r afael â nhw.</p>	<p>Rheolwr Ystadau a Rheolwr Ardal Tŷ Llidiard</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am rôl AGIC, eu hawl i gyfarfod ag ymwelwyr wedi'u penodi gan AGIC yn breifat, a'r ffaith eu bod yn gallu gwneud cwyn i AGIC.</p>	<p>4.2 Gwybodaeth i gleifion</p>	<p>Mae posteri gyda gwybodaeth am AGIC wedi'u gosod mewn nifer o ardaloedd i'r cleifion a'u perthnasau yn Nhŷ Llidiard.</p> <p>Bydd y rheolwr ardal a rheolwr y ward yn sicrhau bod y wybodaeth am AGIC yn aros yn gyfredol ac yn weladwy ym mhob ardal i'r cleifion.</p>	<p>Rheolwr Ardal</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal cleifion yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canolbwyntio ar gryfderau'r cleifion er mwyn cynorthwyo eu hadferiad a'u hannibyniaeth • rhoi tystiolaeth o anghenion nas diwallwyd 	<p>6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth</p>	<p>Mae gwybodaeth wedi'i rhannu â'r holl staff am bwysigrwydd a'r dull o ddatblygu a chydgynhyrchu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar nodau gyda'r cleifion.</p> <p>Bydd y pennaeth nyrsio, rheolwr y ward a'r nyrs archwilio arweiniol yn ymgymryd ag asesiad o anghenion hyfforddiant i'r staff mewn perthynas â chynlluniau gofal ac, os oes angen, trefnu hyfforddiant penodol i gefnogi'r staff gyda chynlluniau gofal.</p> <p>Bydd safon cynlluniau gofal y cleifion yn cael ei hadolygu gan y nyrs archwilio arweiniol trwy archwiliad misol a rhennir y canlyniadau ac unrhyw ddysgu gyda rheolwr y ward, Triwriaeth y Grŵp Gwasanaeth Clinigol a'r holl staff clinigol.</p> <p>Mae'r pennaeth nyrsio yn datblygu achos busnes ar gyfer y bwrdd iechyd i ystyried buddsoddi mewn rôl nyrsio benodol i gefnogi hyfforddi'r staff i helpu i wella ansawdd y gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio a Nyrs Archwilio Arweiniol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Mai 2022</p> <p>Mae'r gwaith o weithredu rhaglen dreigl archwilio dogfennau wedi'i gwblhau</p> <p>Mai 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am sut i wneud cwyn drwy broses Gweithio i Wella GIG Cymru.</p>	<p>6.3 Gwranddo a dysgu o adborth</p>	<p>Mae posteri gyda gwybodaeth am sut i wneud cwyn a phroses Gweithio i Wella GIG Cymru wedi cael eu gosod mewn nifer o ardaloedd i'r cleifion a'u perthnasau yn Nhŷ Llidiard.</p> <p>Rhoddir gwybodaeth am y broses gwynion i'r cleifion hefyd wrth iddynt gael eu derbyn i'r uned am y tro cyntaf.</p> <p>Bydd y rheolwr ardal a rheolwr y ward yn sicrhau bod y wybodaeth am AGIC yn aros yn gyfredol ac yn weladwy ym mhob ardal i'r cleifion.</p>	<p>Rheolwr Ardal a Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</p>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi iechyd a diogelwch.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p>	<p>Er ei fod wedi dod i ben, mae polisi iechyd a diogelwch y bwrdd iechyd ar gael i'r holl staff trwy SharePoint.</p> <p>Gofynnir am estyniad ffurfiol i'r polisi a bydd yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfod nesaf Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y bwrdd iechyd tra bo adolygiad llawn a ffurfiol o'r polisi yn cael ei gomisiynu a'i ddatblygu.</p>	<p>Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Tân</p>	<p>Medi 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae gan y bwrdd iechyd raglen dreigl o hyfforddiant i'r staff gael mynediad at hyfforddiant gorfodol. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd bod yn gyfredol, a'u cyfrifoldeb i wneud hyn, gyda hyfforddiant gorfodol atal a rheoli heintiau a manylion ar sut i gael mynediad at hyfforddiant trwy ddysgu ar-lein y Cofnod Staff Electronig, gyda'r disgwyliad y bydd cydymffurfedd o 85% yn cael ei gyflawni erbyn diwedd mis Mehefin 2022.</p> <p>Mae'r rheolwr arweiniol ar gyfer pob grŵp proffesiynol yn monitro cydymffurfedd y staff â'r holl hyfforddiant gorfodol bob mis ac yn nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn gwella cydymffurfedd i 85% o leiaf. Mae gofyniad i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant gorfodol fel rhan o'u harfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu.</p> <p>Mae adroddiadau ar y cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol yn cael eu hadrodd a'u trafod yn ystod adolygiad perfformiad misol y grŵp gwasanaeth.</p>	<p>Rheolwr y Ward a'r Uwch Nyrs; Rheolwr Therapiau Arweinydd Clinigol ac</p>	<p>Mae'r gwaith o weithredu adolygiad misol wedi'i gwblhau – anelu at gyflawni 85% ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau a Diogelu Lefel 2 erbyn diwedd mis Mehefin 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi Mewnosodiad Nasogastrig a Chadarnhad Safle ar gyfer Oedolion, Plant a Babanod, neu sicrhau bod gan y staff yn Nhŷ Llidiard fynediad at y fersiwn ddiweddaraf os yw wedi'i adolygu ers yr arolygiad.</p>	<p>2.5 Maeth a hydradu</p>	<p>Mae grŵp polisi clinigol ar waith ar draws y bwrdd iechyd i oruchwylio rhaglen waith y polisïau. Y Cyfarwyddwr Meddygol sy'n cadeirio'r grŵp hwn. Mae'r broses ar gyfer cadarnhau ac aelodaeth y grŵp yn cael ei hadolygu.</p> <p>Bydd adolygiad llawn a ffurfiol ynghylch gofyniad y polisi yn cael ei drafod, ei gomisiynu a'i symud ymlaen yn ystod cyfarfod nesaf y Grŵp Polisi Clinigol.</p> <p>Mae gan bob aelod o staff yn Nhŷ Llidiard fynediad at y polisïau a chanllawiau clinigol mwyaf cyfredol, sy'n cael eu rhannu a'u cadw ar SharePoint Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r polisïau hefyd yn cael eu rhannu gydag arweinwyr y tîm rheoli lleol yn ystod cyfarfod ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf misol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac wedyn maent yn cael eu cyfleu lle y bo'n berthnasol i'r holl staff clinigol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol / Arweinydd Bwydo Nasogastrig / Arwain Clinigol Radioleg</p>	<p>Hydref 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynlluniau gofal ar gyfer y cleifion y mae angen tiwbiau nasogastrig arnynt yn amlinellu dymuniadau unigol y claf i helpu i gyflawni bwydo llwyddiannus yn y ffordd orau.</p>	<p>2.5 Maeth a hydradu</p>	<p>Mae gwybodaeth hefyd wedi cael ei rhannu â'r holl staff am bwysigrwydd a'r dull o ddatblygu a chydgynhyrchu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar nodau gyda'r cleifion.</p> <p>Bydd y pennaeth nyrsio, rheolwr y ward a'r nyrs archwilio arweiniol, ynghyd â chynghor a chymorth gan y Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta, yn cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant y staff mewn perthynas â'r cleifion sydd angen tiwbiau nasogastrig ac, os oes angen, byddant yn rhoi hyfforddiant penodol ar waith i gefnogi'r staff gyda chynlluniau gofal a'r dull ar gyfer bwydo llwyddiannus.</p> <p>Bydd ansawdd cynlluniau gofal cleifion yn cael ei adolygu gan y nyrs archwilio arweiniol trwy archwiliad blynyddol a bydd y canlyniadau ac unrhyw ddysgu yn cael eu rhannu â'r holl staff clinigol.</p> <p>Mae'r pennaeth nyrsio yn datblygu achos busnes ar gyfer y bwrdd iechyd i ystyried buddsoddi mewn rôl nyrsio benodol i gefnogi</p>	<p>Pennaeth Nyrsio, Rheolwr y Ward a Nyrs Archwilio Arweiniol</p>	<p>30/09/2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyfforddi'r staff i helpu i wella ansawdd y gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae'r arweinydd clinigol a'r arweinydd fferylliaeth wedi atgoffa'r staff am bwysigrwydd sicrhau bod y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn. Bydd siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu hadolygu bob wythnos a bydd unrhyw broblemau a nodir yn cael sylw ar unwaith.	Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl staff hyfforddiant gorfodol cyfredol mewn diogelu plant.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl	Mae gan y bwrdd iechyd raglen dreigl o hyfforddiant i'r staff gael mynediad at hyfforddiant gorfodol. Mae'r holl staff wedi'u hatgoffa am bwysigrwydd bod yn gyfredol, a'u cyfrifoldeb i wneud hyn, gyda hyfforddiant gorfodol diogelu plant a manylion am sut i gael mynediad at yr hyfforddiant. Hyfforddiant diogelu ar-lein Lefel 2 i fod ar gydymffurfedd o 85% erbyn diwedd mis Mehefin 2022. Hyfforddiant ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb Lefel 3 i fod ar gydymffurfedd o 85%	Rheolwr y Ward a'r Uwch Nyrs; Rheolwr Therapiau ac Arweinydd Clinigol	Mae'r gwaith o weithredu adolygiad misol parhaus wedi'i gwblhau – anelu at gyflawni 85% erbyn diwedd mis Mehefin 2022 ar gyfer Diogelu Lefel 2 Cyrraedd cydymffurfedd o 85% ar gyfer

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>erbyn diwedd mis Medi, yn amodol ar maint y dosbarth ac effeithiau cyfyngiadau COVID-19 / tonnau'r pandemig ar argaeledd.</p> <p>Mae'r rheolwr arweiniol ar gyfer pob grŵp proffesiynol yn monitro cydymffurfedd y staff â'r holl hyfforddiant gorfodol bob mis ac yn nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i wella cydymffurfedd i 85% o leiaf. Mae gofyniad i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant gorfodol fel rhan o'u harfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu.</p> <p>Mae adroddiadau ar y cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol yn cael eu hadrodd a'u trafod yn ystod adolygiad perfformiad misol y grŵp gwasanaeth.</p>		Diogelu Lefel 3 erbyn mis Medi 2022
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl offer meddygol trwy gydol yr uned yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol fel eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn darparu darlleniadau cywir.</p>	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>Mae'r rheolwr ardal wedi sefydlu cofrestr offer meddygol a bydd yn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau meddygol yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu yn rheolaidd yn unol ag amserlen gwaith cynnal a chadw. Bydd hyn yn sicrhau bod yr offer a ddefnyddir yn addas i'r diben ac yn darparu darlleniadau cywir.</p>	<p>Rheolwr Ardal</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Mae clerciaid y ward yn cynnal adolygiadau dyddiol rheolaidd o gofnodion cleifion. Byddant yn sicrhau bod y cofnodion mewn cyflwr da neu eu hatgyweirio os oes angen a bod y dogfennau a'r nodiadau wedi'u ffeilio'n briodol mewn trefn amseryddol ac yn yr adrannau perthnasol.</p> <p>Bob blwyddyn, mae archwiliad o gadw cofnodion ac mae'r canlyniad a'r dysgu yn cael eu rhannu â'r holl staff clinigol.</p>	<p>Rheolwr Ardal</p>	<p>Mae'r gwaith o weithredu adolygiad parhaus wedi'i gwblhau</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn, a mynd i'r afael â'r materion y gwnaethom eu nodi yn yr adroddiad hwn.</p>	<p>Defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl</p>	<p>Mae pob dogfen Adran 17 yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau ei bod wedi'i chwblhau ac yn gywir gan Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl. Bydd Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl yn adrodd ar unrhyw broblemau gydag unrhyw waith papur a gyflwynwyd i reolwr y ward a'r arweinydd clinigol.</p> <p>Mae'r arweinydd clinigol wedi sicrhau bod y staff meddygol dan sylw yn ymwybodol o'r gofyniad i gwblhau ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn gywir a chynnwys pwrpas yr absenoldeb a'r canlyniadau disgwylidig, a lle</p>	<p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		y bo'n briodol, mae'n rhaid i'r ffurflenni hyn gael eu llofnodi gan yr unigolyn ifanc.		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â chynlluniau gofal yn cael eu datrys wrth fynd ymlaen i fodloni'r canllawiau arferion gorau ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth, fel y'u nodwyd ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.</p>	<p>Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl</p>	<p>Mae gwybodaeth wedi'i rhannu â'r holl staff am bwysigrwydd cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar nodau gyda chleifion a'r dull ar gyfer eu datblygu a'u cydgyhyrchu. Mae hyn wedi cynnwys y gwaith o sicrhau bod y cynlluniau gofal yn cael eu hysgrifennu mewn iaith sy'n addas i blant ac ystyried yr wyth maes fel y'u nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl.</p> <p>Bydd y pennaeth nyrsio, rheolwr y waith a'r nyrs archwilio arweiniol yn ymgymryd ag asesiad o anghenion hyfforddiant y staff mewn perthynas â chynlluniau gofal ac, os oes angen, trefnu hyfforddiant penodol i gefnogi'r staff gyda chynlluniau gofal.</p> <p>Bydd ansawdd cynlluniau gofal cleifion yn cael ei adolygu gan y nyrs archwilio arweiniol trwy archwiliad blynyddol a bydd y canlyniadau ac unrhyw ddysgu yn cael eu rhannu â'r holl staff clinigol.</p> <p>Mae'r pennaeth nyrsio yn datblygu achos busnes ar gyfer y bwrdd iechyd i ystyried</p>	<p>Pennaeth Nyrsio, Rheolwr y Ward a'r Nyrs Archwilio Arweiniol</p>	<p>30/09/2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		buddsoddi mewn rôl nyrsio benodol i gefnogi hyfforddi'r staff i helpu i wella ansawdd y gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, a gweithredu archwiliad o'r polisïau i sicrhau y gall staff y ward gyrchu'r fersiwn ddiweddaraf a chyfeirio ati.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	<p>Mae prosesau sy'n bodoli eisoes ar waith i sicrhau bod polisïau yn cael eu hadolygu a'u ddiweddarau'n briodol ac yn unol â newidiadau i ganllawiau statudol a phroffesiynol.</p> <p>Ymgymerir â gwaith pellach i archwilio'r posibilrwydd o gysylltu'r rhaglen waith hon â chronfeydd data a systemau olrhain sefydliadol eraill i sicrhau bod cydymffurfedd yn cael ei fonitro a bod polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>Mae gan bob aelod o staff yn Nhŷ Lliard fynediad at y polisïau a chanllawiau clinigol mwyaf cyfredol, sy'n cael eu rhannu a'u cadw ar SharePoint Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r polisïau hefyd yn cael eu rhannu gydag arweinwyr y tîm rheoli lleol yn</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Pennaeth Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Hydref 2022</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ystod cyfarfod ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf misol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac wedyn maent yn cael eu cyfleu lle y bo'n berthnasol i'r holl staff clinigol.		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Lloyd Griffiths

Swydd:

Pennaeth Nyrsio ar gyfer CAMHS yn Nhŷ Llidiard

Dyddiad:

16 Chwefror 2022